# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG A CHYN-FILWYR 2023

## Crynodeb





# Rhagair i’r Adroddiad Blynyddol gan y Gweinidog

## Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn a’r Gweinidog dros Faterion Cyn-filwyr

Mae digwyddiadau’r 12 mis diwethaf wedi parhau i amlygu’r gwaith hanfodol sy’n cael ei wneud gan ein Lluoedd Arfog. Ar draws y byd maent yn cefnogi ein cynghreiriaid i amddiffyn y gymuned fyd-eang a helpu â gwaith dyngarol hanfodol. Gartref maent yn amddiffyn ein ffiniau, yn darparu cymorth milwrol i’n cymunedau cenedlaethol, ac yn cyfrannu at ddigwyddiadau seremonïol y wladwriaeth sy’n diffinio ein hoes, fel Coroni Eu Mawrhydi. Yn fwy nag erioed, mae cymuned ein Lluoedd Arfog yn ganolog i’n bywydau cenedlaethol ac maent yn diffinio pwy ydym ni fel gwlad, ac rydym yn ymfalchïo bod cefnogaeth y cyhoedd i’n Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a’u teuluoedd mor gryf ag erioed.

Mae’n bleser cyflwyno Adroddiad Cyfamod y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr 2023. Mae’r adroddiad yn cynnwys cyfraniadau gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD), y Swyddfa Materion Cyn-filwyr ac adrannau eraill o’r Llywodraeth, a’r Gweinyddiaethau Datganoledig. Dyma sut mae’r Llywodraeth yn tynnu sylw at y gwaith eithriadol sy’n cael ei wneud ledled y DU i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog a dyma’r prif gyfrwng i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif am gyflawni’r Cyfamod.

Mae’r Llywodraeth yn dal i weithio i gefnogi’r Lluoedd Arfog, ac eleni gwelwyd cyhoeddi sawl adroddiad ac adolygiad pwysig, gan gynnwys y Review of Armed Forces Incentivisation dan ofal Rick Haythornthwaite, a fydd yn grymuso ein pobl, yn gwella eu profiad

bywyd ac yn gwneud Amddiffyn yn gyflogwr mwy atyniadol a modern. Mae'r MOD wedi ehangu hawliadau i Lety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog o dan y Cynnig Llety Newydd i helpu i foderneiddio sut mae Amddiffyn yn helpu ei bobl. Mae adroddiad treiddgar a gonest yr Arglwydd Etherton i driniaeth cyn-filwyr LDHT o'r diwedd wedi galluogi i leisiau cyn-filwyr LDHT gael eu clywed, ac mae'n cydnabod sut yr oedd y gwaharddiad ar bersonél hoyw'r Lluoedd Arfog cyn 2000 wedi effeithio arnynt yn bersonol ac fel carfan.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Swyddfa'r Materion Cyn-filwyr a Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth yn parhau i wneud cynnydd sylweddol i gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i gyflenwi Cardiau Cyn-filwyr i holl gyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU sydd am gael un, mae'n profi'r dechnoleg ofynnol ac yn dechrau cyflwyno'r Cardiau Cyn-filwyr cyntaf i'r rhai a adawodd y Lluoedd Arfog cyn mis Rhagfyr 2018.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi ei chanfyddiadau cyntaf o gynnwys y cwestiwn cyn-filwyr yng nghyfrifiad Cymru a Lloegr 2021, sy'n rhoi mwy o wybodaeth newydd, fwy manwl i'r Llywodraeth a'r sector cyn-filwyr ehangach am y boblogaeth cyn-filwyr ehangach, a'u hanfantais gymharol, nag erioed o'r blaen. Gan gydnabod sut mae cymorth y Llywodraeth wedi esblygu mae Amddiffyn a'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr wedi cyd-gomisiynu adolygiad annibynnol o Wasanaethau Lles Llywodraeth y DU i Gyn-filwyr; i sicrhau eu bod yn parhau i ateb y galw. Mae hwn, a'r ail Adolygiad Pum Mlynedd o Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog yn gwneud argymhellion ar sut y gallwn barhau i sicrhau bod y sawl sydd wedi gwasanaethu'n cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i weithio i sicrhau bod cyn-filwyr yn gallu cael yr help sydd ei angen arnynt drwy lwybrau clir, gan gynnwys Op COURAGE, Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Cyn-filwyr NHS England, ac Op RESTORE, llwybr gofal iechyd

corfforol NHS England, ac Op FORTITUDE, llwybr ar gyfer cyn-filwyr sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid yn y llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus a'r sector elusennol.

Mae 87% o'r personél sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn dod o hyd i waith o fewn 6 mis. Cafodd ymwybyddiaeth o'r gwerth sydd gan gyn-filwyr, milwyr wrth gefn a gwŷr a gwragedd a phartneriaid y Lluoedd Arfog i'w gynnig i'r sector sifil ei amlygu ymhellach gan y 10,000fed llofnod ar Gyfamod y Lluoedd Arfog, gan y John Lewis Partnership. Mae bron i 900 o lofnodwyr y Cyfamod yn aelodau o'r Gold Award Employer Recognition Scheme, sydd hefyd yn dangos y pwyslais a roddir ar ddenu a chyflogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog ym mhob rhan o UK plc.

I gyflawni'r ymrwymiad ym Maniffesto'r Llywodraeth i ymgorffori'r Cyfamod mewn cyfraith, daeth y Ddyletswydd gyfreithiol newydd i roi sylw dyladwy i egwyddorion y Cyfamod i rym ym mis Tachwedd 2022. Ac, yn unol â'n hymrwymiad a wnaed yn y Senedd yn ystod taith y ddeddfwriaeth honno, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynnal adolygiad gofalus i ystyried a ddylai Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig hefyd ddod o fewn cwmpas y ddyletswydd gyfreithiol newydd hon. Ond mae rhagor i'w wneud o hyd i sicrhau nad yw aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog yn profi anfantais o ganlyniad i fywyd yn y lluoedd. Mae'r Llywodraeth hon, ynghyd â chymdeithas ehangach y DU, yn parhau i roi pwyslais ar sicrhau mai'r DU fydd y lle gorau yn y byd i fod yn gyn-filwr, a bod y Cyfamod pwysig rhwng ein gwlad a'n Lluoedd Arfog yn cael eu hanrhydeddu am byth.





Y Gwir Anrhydeddus Grant Shapps AS – Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn

Y Gwir Anrhydeddus Johnny Mercer AS -
Y Gweinidog dros Faterion Cyn-filwyr



Canolfan brofi symudol yn Bardufoss, Norwy a sefydlwyd i brofi Môr-filwyr y 45 Commando sy’n cyrraedd Norwy i ddechrau eu Hyfforddiant Tywydd Oer yn 2021.

# Iechyd a Gofal Iechyd

Mae’r gwaith i wella gwasanaethau a ddarperir i Gymuned y Lluoedd Arfog yn cynnwys:

- Mae’r peilot Op COMMUNITY ar waith ledled Lloegr. Mae Op COMMUNITY yn bwynt cyswllt i gymuned y Lluoedd Arfog sy’n cynnig cymorth ac arweiniad pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau’r GIG.
- Dechreuodd y gwaith i adeiladu’r Ganolfan Ailsefydlu eleni.
- Lansiwyd Op NOVA i gynnig cymorth cyn ac ar ôl carchar i gyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol.
- Dyfarnodd yr OVA £5 miliwn i 22 o brosiectau fel rhan o’r Gronfa Arloesi Iechyd.
- Lansiwyd Op RESTORE, gwasanaeth iechyd corfforol a llesiant cyn-filwyr ym mis Mehefin 2023, gan ddisodli’r Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr.
- Mae’r OVA, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, wedi buddsoddi £3 miliwn yn y Gronfa Symudedd Cyn-filwyr.
- Ym Mehefin 2023, cyhoeddwyd canllaw newydd i bob Bwrdd Iechyd lleol yng Nghymru i helpu i gyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog ac i gynnal y ddyletswydd sylw dyladwy newydd.
- Yn Lloegr, mae 71% o Rwydweithiau Gofal Sylfaenol yn awr yn cynnwys ymarfer ‘cyfeillgar i gyn-filwyr.

O ddiddordeb arbennig mae gwaith NHS England i sefydlu **Grŵp Gwella Iechyd Menywod sy’n Gwasanaethu ac sydd wedi Gwasanaethu.**

Mae hwn yn cynnwys aelodau o’r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Amddiffyn, y Swyddfa Materion Cyn-filwyr, y GIG ac

elusennau'r Lluoedd Arfog, i hybu gwelliannau i bersonél sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr, gan adeiladu ar yr adroddiad 'We Also Served'. Mae'r Grŵp wedi bod yn gweithio â Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn a'r GIG i ddatblygu llwybr mamolaeth i fenywod yn y lluoedd arfog, gan adeiladu ar y peilot Military Maternity Voices yn Swydd Lincoln; a chreu llwybr penodol i bersonél sy'n gwasanaethu (beth bynnag fo'u rhywedd) sy'n wedi dioddef ymosodiad rhywiol, gan gynnwys atgyfeiriad at unrhyw un o'r 49 canolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn Lloegr.



Arddangosiad gan Dîm Cymorth Awyr Gofal Critigol yr Awyrlu, sy'n symud claf.

# Addysg

Mae gwaith i wella addysg a llesiant plant y Lluoedd Arfog yn cynnwys:

- Cyfraniad o £350,000 gan Lywodraeth Cymru yn 2023-24 at brosiect Cynorthwyo Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg Cymru, gan weithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r prosiect yn darparu amrywiaeth o gymorth i blant y lluoedd arfog yng Nghymru, sydd ar gael drwy ysgolion ac awdurdodau lleol.

- Mae Llywodraeth yr Alban wedi newid ei chanllaw ar gyllido addysg bellach i blant personél y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn golygu bod myfyrwyr mewn addysg bellach o gymuned y Lluoedd Arfog na allai gael help yn awr yn gallu gwneud cais am gyllid ar gyfer cyrsiau cymwys.

Mae gwaith wedi parhau â'r Adran Addysg i gryfhau polisïau fel y Cod Derbyn i Ysgolion a'r Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau i helpu i ddiwallu anghenion plant y Lluoedd Arfog. Mae'r Adran Addysg yn parhau i ganolbwyntio ar wella cymorth gan awdurdodau lleol ac ysgolion i blant y Lluoedd Arfog wrth iddynt symud i mewn ac allan o system addysg Lloegr. Cafodd Rhaglen Cymorth Plant y Lluoedd Arfog ei lansio ddechrau Ebrill 2023, gan gefnogi prosiectau sy'n rhoi pwyslais ar blant y lluoedd arfog. Ei nod yw cau unrhyw fwlch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion y Lluoedd arfog ac eraill, a rhoi sylw i anghenion disgyblion y Lluoedd Arfog ag anghenion ychwanegol.



Criw o fyfyrwyr yn tynnu lluniau ar fwrdd gwyn

# Tai a llety

- Cyhoeddodd Diweddariad o’r Papur Gorchymyn Amddiffyn ym mis Gorffennaf 2023 fuddsoddiad pwysig mewn llety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog. Bydd £400 miliwn o gyllid ychwanegol dros gyfnod o ddwy flynedd yn mynd i’r afael â phroblemau lleithder a llwydni, yn gwella effeithlonrwydd thermol ac yn gwneud gwaith adnewyddu mewn cartrefi gwag.
- Mae’r MOD wedi buddsoddi mewn eiddo newydd mewn sawl ardal, o Lossiemouth i Plymouth. Roedd yr ardaloedd hyn yn arfer bod yn ddibynnol iawn ar lety costus a oedd yn cael ei rentu gan landlordiaid preifat.
- Mae’r polisi Llety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog wedi cael ei foderneiddio fel y bydd dros 5,200 o deuluoedd mewn perthnasoedd sefydlog (nad ydynt yn briod na mewn partneriaethau sifil), yn awr yn cael byw mewn Llety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog.
- Mae gan 97% o Lety Teuluoedd y Lluoedd Arfog fynediad at Wi-Fi gyda buanedd o 24Mbps, sy’n welliant mawr mewn ardaloedd a oedd wedi’u hynysu’n ddigidol cyn hynny.
- Ar ôl cwblhau peilot llwyddiannus, mae Cymorth i Brynu i’r Lluoedd Arfog wedi dod yn bolisi parhaus ers Ionawr 2023.
- Cytunwyd ar Safon Sylfaenol ar gyfer Llety Pobl Sengl.
- Lansiodd yr OVA Op FORTITUDE, cynllun atgyfeirio pwrpasol gwerth £500 mil ar gyfer cyn-filwyr i helpu i atal digartrefedd.
- Lansiodd yr OVA Cartref mewn Cymdeithas Sifilaidd, sy’n rhoi arweiniad i’r opsiynau a’r gwasanaethau tai sydd ar gael i bersonél y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a’u teuluoedd sy’n byw yn Lloegr.



Llety i Deulu'r Lluoedd Arfog yn Wiltshire.

# Cwestau ac ymgysylltiad barnwrol

Mae Uned Cwestau'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cofnodi 89 o gwestau (gyda 34 ohonynt yn ymwneud â marwolaeth cyn-filwr) lle mae'r ymchwiliadau wedi eu cwblhau rhwng 1 Hydref 2022 a 30 Medi 2023.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cadarnhaodd y Scottish Fatalities Investigation Unit wrth Uned Gwestau'r Weinyddiaeth Amddiffyn eu bod wedi cwblhau ymchwiliadau i farwolaeth chwech o bersonél y Lluoedd Arfog; roedd hyn yn cynnwys marwolaeth dau gyn-filwr yn yr Alban. Ym mhob un o'r chwe marwolaeth, roedd yr ymchwiliadau'n ddigonol i ddeall achosion y farwolaeth, a oedd yn golygu nad oedd angen iddynt fynd ymlaen i ymchwiliad damweiniau angheuol (yr hyn sy'n cyfateb i gwest yn yr Alban). Ni chofnodwyd marwolaeth cyn-filwyr yng Ngogledd Iwerddon.

Nid oes cwestau wedi'u cynnal eto i 52 o farwolaethau milwrol a chyn-filwyr a ddigwyddodd ers 1 Hydref 2022.

# Y diweddariad am Strategaeth Teuluoedd y Lluoedd Arfog yn y DU

- Mae cyllid i gefnogi Strategaeth Teuluoedd y Lluoedd Arfog yn parhau o dan Gronfa Teuluoedd y Lluoedd Arfog, gyda dros £900 mil i brosiectau Blynyddoedd Cynnar, tua £500 mil i helpu gwŷr a gwragedd a phartneriaid aelodau'r Lluoedd Arfog, a dros £2 miliwn ar gyfer cymorth addysgol.



Swyddog o’r Llynges yn dychwelyd adref

- Ers lansio’r cynllun llwyddiannus Cynllun Gofal Plant Cofleidiol ym mis Medi 2022, mae dros 5,500 o deuluoedd y Lluoedd Arfog yn manteisio ar arian tuag at eu costau gofal plant.
- Daeth y Weinyddiaeth Amddiffyn i gytundeb â’r Swyddfa Gartref y byddai teuluoedd personél y Lluoedd Arfog yn cael cymryd y prawf ‘Bywyd yn y DU’ pan fyddant yn y DU a defnyddio hwn ar gyfer unrhyw geisiadau Hawl i Fynediad Penagored yn y dyfodol, hyd yn oed os byddant dramor pan fyddant yn gwneud eu cais.

.



Cwpl, un mewn lifrai, yn gafael yn nwylo ei gilydd wrth gerdded ar draws sgwâr o flaen adeiladau

# Busnes, cyflogaeth a'r gymuned

- Mae nifer llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi profi twf sylweddol ers 30 Medi 2023 gyda chyfanswm o 10,975 wedi ei lofnodi.
- Roedd Cynhadledd Partnering with Defence 2023 a gynhaliwyd yng Nghanolfan Brenhines Elizabeth II yn Llundain yn gynulliad bywiog o dros 300 o sefydliadau, gan gynnwys llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog a deiliaid dyfarniad y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr.
- Yn yr Alban, cafodd Rhaglen Supporting Armed Forces Employment ei sefydlu ym mis Hydref 2022.
- Ym mis Hydref 2022, cafodd y Swyddfa Materion Cyn-filwyr ei sefydlu gan y Grŵp Cyflogwyr Cyn-filwyr, gan ddwyn ynghyd gyflogwyr blaenllaw o bob rhan o'r DU i ganfod, hyrwyddo a rhannu arferion gorau mewn cyflogaeth i gyn-filwyr a chreu cyfleoedd a goresgyn rhwystrau i gynyddu cyflogaeth i gyn-filwyr.



Baner Prydain ar ddoc

# Y Cyfamod mewn cyfraith

- Ar 22 Tachwedd 2022 daeth Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog statudol i rym. Mae hon yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol i roi sylw dyladwy i egwyddorion y Cyfamod wrth weithredu swyddogaethau penodol (mewn gofal iechyd, addysg a thai) a allai gael effaith ar gymuned y lluoedd Arfog.

- Drwy gydol 2023, bu'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnal adolygiad i ystyried a ddylai adrannau canolog o Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ddod o fewn cwmpas y Ddyletswydd hon.




Bathodyn Cyn-filwr ar siwt

# Y Diweddaraf ar Gynllun Gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Cyn-filwyr

Mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Cyn-filwyr (VSAP), a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Materion Cyn-filwyr yn 2022, yn disgrifio sut y mae'r llywodraeth yn grymuso ac yn cynorthwyo cyn-filwyr yn unol â'r egwyddorion a'r nodau a geir yn Strategaeth ar gyfer ein Cyn-filwyr 2018.

Mae'r VSAP yn cyflwyno portffolio uchelgeisiol o dros 60 o ymrwymiadau ar draws y llywodraeth i wella dealltwriaeth a gwasanaethau i gyn-filwyr. Mae diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a wnaed i gyflawni'r VSAP erbyn diwedd 2024 wedi'u darparu gan OVA yn yr haf, a thrwy'r adroddiad hwn yn y gaeaf.

Erbyn Medi 2023, ychydig dros hanner ffordd drwy'r cynllun gweithredu, roedd 64% o'r gweithgarwch a gynlluniwyd wedi'u cwblhau (gan godi o 25% yn Awst 2022).



Llun agos o babi coch